# Datganiad Manylion

## Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru

TERFYNOL

22 Medi 2015

Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu defnyddio a’u gwella’n gynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
Byddwn yn gweithio dros gymunedau Cymru i warchod pobl a’u cartrefi, cyn belled ag y mae hynny’n bosibl, rhag digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a llygredd.
Byddwn yn rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu, defnyddio ac elwa o adnoddau naturiol Cymru.
Byddwn yn gweithio dros economi Cymru ac yn galluogi defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i gynnal swyddi a menter. Byddwn yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac i ystyried cyfyngiadau amgylcheddol wrth gymryd penderfyniadau pwysig.
Byddwn yn gweithio i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd i bawb. Byddwn yn gweithio i wneud adnoddau’r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn fwy cadarn rhag newid hinsawdd a phwysau eraill.

# 1. Cyflwyniad

Yn ôl Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol), mae gofyn i Ddatganiad Manylion fod ar gael cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl mabwysiadu'r cynllun. Rhaid i'r datganiad ddangos:

1. Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hintegreiddio i Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru (**Adran 2** y ddogfen hon)
2. Sut mae'r Adroddiad Amgylcheddol wedi cael ei ystyried (**Adran 3**)
3. Sut mae'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol wedi cael eu hystyried (**Adran 4**)
4. Y rhesymau dros ddewis Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru, fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni'r dewisiadau rhesymol eraill a drafodwyd (**Adran 5**)
5. Y mesurau a gymerir i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (**Adran 6**)

## Cynlluniau rheoli perygl llifogydd

O dan Gyfarwyddeb Llifogydd Ewrop, a drosglwyddwyd i gyfraith Cymru a Lloegr drwy Reoliadau Perygl Llifogydd 2009, mae gofyn i gynlluniau rheoli perygl llifogydd gael eu cynhyrchu bob chwe blynedd.

Mae Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru'n amlinellu mesurau arfaethedig ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn y cymunedau a ystyrir mwyaf agored i'r perygl o lifogydd. Cafodd hyn ei gyhoeddi rhwng 10 Hydref 2014 a 31 Ionawr 2015. Cafodd yr adroddiad amgylcheddol a oedd yn nodi'r Asesiad Amgylcheddol Strategol a gynhaliwyd o'r cynllun drafft ei gyhoeddi ochr yn ochr ag ef.

Amcanion Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yng Nghymru yw:

1. Lleihau'r perygl o niwed i fywyd gan lifogydd i bobl a chymunedau o'r prif afonydd, cronfeydd a'r môr
2. Cynyddu gwydnwch gwasanaethau, asedau a seilwaith i'r perygl o lifogydd yn y presennol a'r dyfodol
3. Gwella'r ddealltwriaeth o berygl llifogydd yn y presennol a'r dyfodol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael

4. Gwella ymwybyddiaeth cymunedau o'r perygl o lifogydd yn y presennol a'r dyfodol, a'u gwneud yn fwy gwydn yn hynny o beth
5. Cydweithio ag eraill i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd mewn modd effeithiol a chyson
6. Dyrannu cyllid ac adnoddau ar gyfer pob mathau o lifogydd ar sail perygl
7. Ymgorffori gwaith rheoli adnoddau naturiol i'r gwaith o reoli perygl llifogydd
8. Chwilio am gyfleoedd i gyflawni mesurau Cynllun Rheoli Basn Afon drwy reoli perygl llifogydd

## 2. Sut y mae ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu hintegreiddio i Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru’n cael eu cynnal, eu defnyddio, a’u gwella mewn modd cynaliadwy, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. O ganlyniad, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n mabwysiadu nifer o arferion er mwyn sicrhau bod gwaith rheoli perygl llifogydd yn gynaliadwy. Mae hyn yn dwyn buddiannau ar y cyd i bobl ac amgylchedd Cymru, ac yn cyfrannu at Gymru sy'n gallu dygymod yn well â llifogydd.

Mae Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru wedi cael ei ddatblygu i ddisgrifio'r mesurau rydym yn eu cynnig i reoli'r risg o lifogydd i bobl, yr amgylchedd, a gweithgarwch economaidd ar draws Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru. Mae hyn yn fuddiol ynddo'i hun, ond mae posibilrwydd o effeithiau amgylcheddol ehangach drwy wneud hyn. Mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn nodi ein hymrwymiad i gynnal asesiad amgylcheddol strategol ac asesiad effaith amgylcheddol o'n cynlluniau, strategaethau a phrosiectau lle bo hynny'n berthnasol ac yn angenrheidiol. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn lleihau'r effaith amgylcheddol cyn belled ag y bo modd, ac yn dwyn cynifer o fuddiannau amgylcheddol â phosibl. Rydym yn ymdrechu i reoli perygl llifogydd yn bennaf drwy ddefnyddio mesurau nad ydynt yn ffisegol. Er enghraifft, deall perygl drwy ymchwilio a modelu, rhybuddio, hysbysu, ac ystyried ymyrryd yn ffisegol ond pan fo'r perygl wedi'i ddeall, a phan fo'n angenrheidiol er mwyn amddiffyn pobl ac eiddo.

Rydym yn gweithio'n rhagweithiol i ddarparu'n uniongyrchol, neu gyda phartneriaid, cynefin Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a chynefinoedd rhynglanwol i liniaru neu ddigolledu effeithiau a achoswyd gan amddiffynfeydd sydd eisoes yn bodoli neu a fydd yn bodoli yn y dyfodol. Gwneir hyn drwy ein Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Creu Cynefinoedd, sy'n ofyniad statudol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Cafodd ystyriaethau amgylcheddol eu hintegreiddio drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r cynllun drwy broses Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae alinio rhaglenni cynllunio rheoli basn afon a rheoli perygl llifogydd a meysydd astudio wedi'i wneud yn bosibl ystyried sut mae'r cynlluniau'n rhyngweithio, a sut gall Cyfoeth Naturiol Cymru weithio i ddwyn amryw fuddiannau yn y modd mwyaf effeithlon, drwy gydol y gylchred gynllunio chwe blynedd.

Datblygwyd Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer Gorllewin Cymru (ail gylchred) i'r un amserlen â'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd. Mae'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn disgrifio'r pwysau y mae'r amgylchedd dŵr yn eu hwynebu, ac yn pennu amcanion ar gyfer afonydd, llynnoedd, aberoedd, dŵr arfordirol a dŵr daear ar gyfer y cyfnod 2015–2021, ac yn diffinio'r mesurau blaenoriaeth sydd eu hangen i wella'r amgylchedd, y buddiannau y gallai'r camau hynny eu dwyn, a phwy sydd yn y sefyllfa orau i'w cyflawni. Mae'r mesurau'n ceisio mynd i'r afael â'r problemau sylweddol o ran rheoli dŵr. Mae'r Gyfarwyddeb Llifogydd yn nodi bod Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a Chynlluniau Rheoli Basnau Afon yn agweddau ar reolaeth basnau afon integredig, ac y *'dylai'r ddwy broses felly ddefnyddio'r potensial cilyddol ar gyfer synergeddau a manteision cyffredin, gan ystyried amcanion amgylcheddol Cyfarwyddeb 2000/60/EC (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr), a sicrhau effeithlonrwydd a'r defnydd doeth o adnoddau.'*

Er mwyn helpu i integreiddio Cynllun Rheoli Basn Afon a Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru, mae'r ddau gynllun yn amlinellu nifer o fesurau cenedlaethol. Bydd y rhain yn helpu i sicrhau bod y ddau gynllun yn gysylltiedig, ac yn sicrhau bod y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn ystyried y mesurau sydd eu hangen i wella'r amgylchedd dŵr wrth gynnal gweithgareddau rheoli perygl llifogydd. Cynigir y bydd y mesurau hyn yn cael eu cyflwyno, lle bo modd, gan brosiectau, gweithrediadau, a chynlluniau ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Mae'r mesurau wedi eu hamlinellu isod, ac maent yn dangos ymrwymiad Cyfoeth Naturiol Cymru i drefniadau integredig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol drwy ein gweithgareddau.

## Mesurau Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd er mwyn Integreiddio'r Cynllun Rheoli Basn Afon a'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

1. **Nodi cyfleoedd i wella'r amgylchedd dŵr trwy raglenni gwaith a chynlluniau dylunio ar gyfer rheoli perygl llifogydd sydd eisoes yn bodoli.** Nodwyd synergeddau a gwrthdrawiadau posibl rhwng mesurau cynllun rheoli basn afon a rheoli perygl llifogydd mewn cymunedau penodol sydd mewn perygl, a bydd y rhain yn cael eu hymgorffori yn y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (y system ar gyfer blaenoriaethu gweithredoedd rheoli perygl llifogydd yng Nghymru) er mwyn nodi lle y gellid dwyn amryw fuddiannau drwy brosiectau. Mae'r mesurau hyn yn rhai a amlinellwyd yn y Cynllun Rheoli Basn Afon fel rhai angenrheidiol i gyrff dŵr gyflawni statws neu botensial ecolegol da. Rydym wedi dewis naill ai'r rhai y gellid eu cyflawni drwy weithrediadau neu brosiectau rheoli perygl llifogydd, neu rai a allai fod o fudd i reoli perygl llifogydd, er enghraifft:
    i. Prosesau arfordirol a gwaith rheoli gwaddodion priodol
    ii. Lleihau effeithiau amddiffynfeydd llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol
    iii. Lleihau effeithiau mordwyaeth a charthu
    iv. Arferion amaethyddol / arferion rheoli tir cynaliadwy
    v. Gwella cynefinoedd pysgod a'u gallu i basio
    vi. Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol
    vii. Rheoli mynediad a hamdden mewn modd cynaliadwy

Ar lefel y prosiect, bydd y gwerthusiad o opsiynau a dyluniad yn ystyried sut y gellir ymgorffori'r mesurau hyn neu sut gall rheoli perygl llifogydd weithio gydag eraill neu ddylanwadu arnynt i ddwyn amryw fuddiannau.

2. **Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio cyfleoedd ac yn dylanwadu ar bobl eraill er mwyn defnyddio mesurau rheoli perygl llifogydd lle bo hynny'n briodol.** Bydd rheoli perygl llifogydd yn gweithio gyda thimau rheoli adnoddau naturiol ardal i ddatblygu datganiadau sy'n seiliedig ar ardaloedd er mwyn sicrhau bod perygl llifogydd yn rhan ganolog o ystyriaethau ynglŷn â rheoli adnoddau naturiol, gan gynnwys nodi cyfleoedd i reoli perygl llifogydd mewn modd naturiol. Bydd rheoli perygl llifogydd yn cefnogi gwaith pobl eraill i nodi cyfleoedd a gweithredu mesurau i ddiogelu buddiannau perygl llifogydd fel rhan o raglenni gwaith/prosiectau cynlluniedig.

3. **Gweithredu gwaith adlinio a reolir, a chreu cynefinoedd rhwnglanwol drwy'r Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol.** Byddwn yn parhau â'r rhaglen waith hon, ac yn darparu cynefinoedd digolledu arfordirol i wrthbwyso'r colledion rhagweledig o ganlyniad i wasgu arfordirol, fel y nodwyd yng Nghynlluniau Rheoli Traethlin 2.

4. **Mewn cyrff o ddŵr y nodir eu bod wedi cael eu haddasu’n sylweddol oherwydd gwaith amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir, bydd gwaith lliniaru ar gyfer asedau a gweithgareddau CNC yn cael ei adolygu a'i gyflawni ar sail blaenoriaeth.**

5. **Cyfrannu at amcan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a statws cadwraeth ffafriol ar safleoedd Rheoli Lefel Dŵr sydd wedi cael eu blaenoriaethu.** Byddwn yn parhau i gydweithio â'n cydweithwyr safleoedd gwarchodedig a pherchenogion tir i gyflwyno cynlluniau rheoli lefel dŵr.

6. **Cyfrannu at ymchwil a gwaith datblygu er mwyn nodi'r arferion gorau ar gyfer rheoli pwysau hydromorffolegol ar yr amgylchedd dŵr.**

Mae hefyd yn bwysig cydnabod sut gall mesurau cynllun rheoli basn afon fod o fudd i waith rheoli perygl llifogydd, ac i gydweithio i wneud y gorau o hyn. Er enghraifft, bydd mesurau cynllun rheoli basn afon i leihau llwybrau llygredd gwasgaredig (e.e. rheoli mynediad at amgylchedd dŵr) drwy reoli dŵr ffo wyneb a rheoli draenio yn dwyn buddiannau amlwg i reoli perygl llifogydd. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys gwella cyflwr ardal glannau afon a/neu gynefinoedd gwlypdir drwy wella cynefinoedd a ffensio, neu ddatblygu a gweithredu strategaethau rheoli gwaddodion neu waith i atal llygredd amaethyddol.

## 3. Sut mae'r Adroddiad Amgylcheddol wedi cael ei ystyried.

Mae'n bwysig bod unrhyw gynllun yn ystyried yr amgylchiadau amgylcheddol y bydd yn cael ei weithredu ynddynt. Mae hyn er mwyn sicrhau bod effeithiau negyddol anfwriadol yn cael eu hosgoi, yn ogystal ag i nodi'r posibilrwydd o gael amryw fuddiannau.

Gwnaeth yr Adroddiad Amgylcheddol a oedd ar gael ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ochr yn ochr â'r cynllun drafft gofnodi effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl o fesurau arfaethedig y cynllun, a nodi mesurau lliniaru a chyfleoedd i ddwyn amryw fuddiannau drwy weithrediadau rheoli perygl llifogydd.

Yn Nhabl 3.1, ceir crynodeb o effeithiau arwyddocaol tebygol y cynllun ar yr amgylchedd, a'r mesurau lliniaru arfaethedig yn y Cynllun Amgylcheddol.

**Tabl 3.1**

| Gwasanaeth Ecosystem | Effaith y Cynllun | Disgrifiad o'r effaith | Lliniaru effeithiau negyddol |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Darparu | | | |
| Bwyd (e.e. cnydau, ffrwythau, pysgod) | **Mân Effaith Negyddol** | Effeithiau lleol meddiant tir o ganlyniad i adeiladu a/neu adlinio amddiffynfeydd. Rhaid ystyried hyn yn erbyn buddiannau posibl lle mae mesurau rheoli perygl llifogydd yn amddiffyn tir amaethyddol. Ceir effeithiau negyddol posibl ar gynefinoedd pysgodfeydd, a achosir gan fesurau amddiffyn. | Bydd angen i bob cynllun rheoli perygl llifogydd gydymffurfio â rheoliadau Ewropeaidd i alluogi pysgod a llyswennod i basio. Ceisir cyfleoedd am gynlluniau i wella cynefinoedd pysgod a'u gallu i basio, yn unol â'r argymhellion ar gyfer cynlluniau rheoli basn afon. Bydd y mesur lliniaru ar lefel prosiect. |
| Rheoleiddio Gwasanaethau | | | |
| Rheoleiddio Dŵr (e.e. llifogydd) | **Mân Effaith Gadarnhaol** | Ar draws yr Ardal Basn Afon, byddai effeithiau cadarnhaol arwyddocaol lleol drwy leihau'r perygl llifogydd i bobl ac eiddo. Byddai hyn o ganlyniad i weithredu camau yn y cymunedau sydd fwyaf agored i berygl. | |
| Rheoleiddio Pridd ac Erydu | **Mân Effaith Gadarnhaol** | Ar draws yr Ardal Basn Afon o ganlyniad i leihau'r perygl o niwed storm sylweddol ac erydu yn sgil digwyddiadau llifogydd, a hefyd o ganlyniad i newidiadau i'r trefniadau ar gyfer carthu a lleihau mannau bas. | |
| Gwasanaethau Diwylliannol | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Treftadaeth Ddiwylliannol | **Mân Effaith Negyddol** | O'r posibilrwydd y gallai mesurau anhrefnu archaeoleg gladdedig na wyddys amdani, a'r effaith ar nodweddion hysbys treftadaeth a thirweddau diwylliannol. Mae hwn yn asesiad rhagofalus yn sgil y lefel uchel o ansicrwydd ynghylch dyluniad y mesurau, a dylid ei ystyried yn erbyn yr amddiffyniad a roddir i asedau treftadaeth ddiwylliannol o fesurau parhaus, cytunedig, ac arfaethedig. | Drwy'r broses Asesiad Effaith Amgylcheddol, bydd cynlluniau unigol yn nodi yn y cam cynharaf unrhyw asedau treftadaeth dynodedig neu rai nad ydynt yn ddynodedig, gan gynnwys y risg o archaeoleg gladdedig na wyddys amdani. Bydd hyn yn sefydlu'r posibilrwydd o gael effeithiau negyddol yn ogystal â chyfleoedd i wella, llywio opsiynau'r cynllun a dyluniad manwl, a chanfod strategaeth lliniaru briodol. |
| Hamdden a Thwristiaeth (gan gynnwys mannau hygyrch glas a gwyrdd) | **Mân Effaith Negyddol** | Mae posibilrwydd o effeithiau lleol ar hamdden a thwristiaeth wrth ddarparu cynlluniau lliniaru llifogydd oherwydd y posibilrwydd o golli tir hamdden neu dir amwynder, tarfu ar hawliau tramwy cyhoeddus, a newidiadau mewn lefelau dŵr a allai effeithio ar weithgareddau sy'n seiliedig yn y dŵr. | Drwy'r broses asesiad effaith amgylcheddol, byddwn yn cynnwys grwpiau buddiant perthnasol mewn yn gynnar yn y prosiect er mwyn nodi effeithiau posibl a chytuno ar fesurau lliniaru penodol ar gyfer y cynllun. Ceisir cyfleoedd i gynlluniau i wella o ran mynediad i'r cyhoedd, dehongli, rhwydweithiau llwybrau cerdded a seiclo, ac i wella tir hamdden ac amwynderau. |
| Gwerth esthetig (e.e. tirwedd, morwedd, tawelwch) | **Mân Effaith Negyddol** | Mae posibilrwydd o effeithiau lleol yn ddibynnol ar leoliad, math a dyluniad cynlluniau rheoli perygl llifogydd. | Drwy'r broses asesiad effaith amgylcheddol, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cynnar gyda buddiannau perthnasol o ran tirwedd, a phan fo angen, byddwn yn cynnal asesiadau tirwedd ac effaith weledol i lywio dyluniad y cynllun a'r mesurau lliniaru. |
| Gwasanaethau cefnogi | | | |
| Darparu | **Mân Effaith** | Mae mesurau parhaus a chytunedig a | Bydd y dull o liniaru effeithiau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| cynefinoedd | **Negyddol** | ddarperir o dan ail genhedlaeth drafft y Cynllun Rheoli Traethlin wedi eu cefnogi gan brosiectau darparu cynefinoedd digolledu o dan y Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol. Mae posibilrwydd y gall y mesurau arfaethedig gael effeithiau lleol yn amodol ar leoliad, math a dyluniad cynlluniau rheoli perygl llifogydd. | negyddol posibl ar gynefinoedd a rhywogaethau yn cynnwys ymgynghoriad cynnar gyda buddiannau gwarchod natur er mwyn nodi ac asesu ar lefel y prosiect unrhyw effeithiau posibl (gan gynnwys safleoedd dynodedig ar gyfer buddiannau gwarchod natur a rhywogaethau a warchodir) a chytuno ar fesurau lliniaru penodol ar gyfer y cynllun. Bydd ymgysylltu cynnar â buddiannau gwarchod natur yn golygu y bydd modd nodi cyfleoedd i greu cynefinoedd, i wella amrywiaeth cynefinoedd a chyflwr safleoedd a chysylltiadau rhyngddynt, ac i wella gallu pysgod a llyswennod i basio, a chynefinoedd eraill i rywogaethau a warchodir. |

Cafodd y broses o gynnal asesiad amgylcheddol strategol ar gyfer cynlluniau rheoli basn afon a chynlluniau rheoli perygl llifogydd ei halinio, a oedd yn hybu cynllunio integredig ac yn golygu bod modd i'r asesiad amgylcheddol strategol ddylanwadu ar y cynllun.

O ganlyniad i'r ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal asesiad amgylcheddol o'n gweithrediadau a'n cynlluniau ar raddfa briodol, a'r ffaith inni weithredu'r mesurau cenedlaethol a ddisgrifir uchod, mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd wedi rhoi sylw dyledus i ystyriaethau amgylcheddol. Caiff effeithiau negyddol eu lleihau, a bydd dwyn amryw fuddiannau'n cael ei hybu.

## 4. Sut mae safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol wedi cael eu hystyried

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol yn ystod y cyfnod cwmpasu wrth i'r adroddiad cwmpasu gael ei gyhoeddi i lywio cwmpas yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Gwnaethom hefyd ymgysylltu â Thîm Asesiad Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadw fel ymgynghorwyr statudol ym mhroses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r cynllun.

Mae crynodeb manwl o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol yn Atodiad 1. Mae hwn yn nodi pob ymateb a dderbyniwyd, yn crynhoi'r sylwadau a wnaed, ac yn nodi'r camau gweithredu rydym wedi eu cymryd ac wrthi'n cymryd i fynd i'r afael â'r sylwadau. Mae crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd gennym yn ymwneud â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, a'r camau rydym yn eu cymryd, wedi eu hamlinellu isod.

Roedd y ffaith nad oedd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun drafft er mwyn llywio'r Adroddiad Amgylcheddol a datblygiad y cynllun yn destun pryder i'r ymatebwyr. Rydym yn cytuno y dylai'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fod wedi digwydd ochr yn ochr â pharatoi'r cynllun drafft. Fodd bynnag, nid oedd yr adnoddau prin a'r pwysau ar y rhaglen yn caniatáu hyn. Fodd bynnag, cynhaliwyd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ochr yn ochr â'r cynllun terfynol, ac fe'i defnyddiwyd i lywio'r cynllun. Gwnaethom ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru (Tîm Asesu Amgylcheddol) ynglŷn â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft, a gwnaethom ystyried eu sylwadau wrth inni orffen yr asesiad hwnnw. Bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gael i lywio'r gwaith o gymeradwyo'r cynllun, a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun terfynol.

Roedd pryderon y byddai'r cynigion ar gyfer monitro effeithiau arwyddocaol y cynllun yn canolbwyntio gormod ar fonitro drwy’r cynllun rheoli basn afon, ac ni fyddai hyn yn nodi'r effeithiau ehangach ar dderbynyddion amgylcheddol. Wrth ymateb i'r sylw hwn, rydym wedi ystyried mewn mwy o fanylder y gwaith monitro rydym yn cynnig ei wneud o effeithiau arwyddocaol y cynllun, ac mae hyn wedi'i nodi yn Adran 6 isod.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o eglurder ynglŷn ag osgoi, lleihau a lliniaru'r effeithiau ar dderbynyddion penodol; roedd ymatebwyr eraill yn hyderus y byddai mesurau lliniaru yn cael eu nodi ar lefel y prosiect drwy asesiad effaith amgylcheddol. Rydym wedi amlinellu ein hymrwymiad i gynnal asesiad amgylcheddol o'n prosiectau o dan bolisi Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn Adran 3 uchod.

Cafwyd sylwadau ynglŷn â Rheoli Perygl Llifogydd Naturiol, lleihau llifogydd, a storio. Gall yr Asesiad Amgylcheddol Strategol fesur y mesurau a gynigir gan y cynllun ei hun yn unig. Rydym yn ystyried yr holl opsiynau hyn ar lefel prosiect, a nod y gwaith o ymgorffori asesiadau o'r effaith amgylcheddol yn yr achosion busnes technegol ac economaidd ar gyfer prosiectau yw dylanwadu ar y dewis o opsiynau. Byddwn yn cynnal asesiad effaith amgylcheddol ar lefel y prosiect yn ôl y ddeddfwriaeth berthnasol ac yn ôl polisi Cyfoeth Naturiol Cymru. O ganlyniad i'r ymatebion ymgynghori a chylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried rheoli adnoddau naturiol wrth gynnal ei weithrediadau, rydym wedi amlinellu mesurau cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd, gan gynnwys chwilio am gyfleoedd a helpu pobl eraill i ddefnyddio mesurau naturiol ar gyfer rheoli perygl llifogydd lle bo hynny'n briodol.

## 5. Y rhesymau dros ddewis Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru, fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni'r dewisiadau rhesymol eraill a drafodwyd

Roedd ymgynghoriad 2012 ar y dull arfaethedig o weithredu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ledled Lloegr a Chymru'n nodi tri dewis ar gyfer datblygu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd:

- Dewis A. Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol i baratoi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i ardaloedd mewn perygl, gan gynnwys ffynonellau lleol o berygl llifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n paratoi cynllun rheoli perygl llifogydd ar gyfer y brif afon, y môr a chronfeydd dŵr.

- Dewis B. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynhyrchu cynllun rheoli perygl llifogydd cyfunol mewn partneriaeth ag eraill drwy ddod â gwybodaeth ynghyd o wahanol gynlluniau.

- Dewis C. Datblygir cynllun rheoli perygl llifogydd mewn partneriaeth drwy un broses integredig sy'n ymdrin â phob ffynhonnell o berygl llifogydd.

Cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru gynnig ym mis Mehefin 2013 ynglŷn â'r ffordd ymlaen, gan ystyried adborth yr ymgynghoriad. Yr agwedd a ffafriwyd ganddynt ar gyfer Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd oedd Dewis B, sef Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd cyfunol. Hwn oedd ein bwriad a'r dull oedd yn well gennym. Fodd bynnag, unwaith i'r awdurdodau llifogydd lleol arweiniol ystyried yr amserlenni, gwnaethant sylweddoli na fyddent yn gallu cyfuno â Chyfoeth Naturiol Cymru o fewn yr amserlen. O ganlyniad, penderfynodd yr holl awdurdodau llifogydd lleol arweiniol ag ardaloedd â pherygl llifogydd gynhyrchu cynlluniau annibynnol (Dewis A). Byddwn yn anelu at Ddewis C yng nghylchredau'r dyfodol.

### Mesurau o gynlluniau presennol

Caiff cyfran fawr o'r cynllun rheoli perygl llifogydd ei dynnu'n uniongyrchol o gynlluniau y mae ymgynghoriadau ac asesiadau amgylcheddol strategol blaenorol wedi eu cwmpasu (cynlluniau dalgylch ar gyfer rheoli llifogydd, cynlluniau rheoli traethlin, Strategaeth Lanw Dyfi a Strategaeth Lanw Clwyd). Gwnaeth y cynlluniau hyn ystyried opsiynau eraill ar y pryd ar raddfa a oedd yn briodol iddynt, ac felly nid ydynt wedi cael eu hadolygu eto o fewn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd, nac yn Asesiad Amgylcheddol Strategol y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd o ganlyniad i hynny.

### Mesurau yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

Mae mesurau'r cynllun rheoli perygl llifogydd yn amlinellu'r anghenion rheoli ar gyfer y dyfodol ar draws y dalgylch, y draethlin a'r ffynonellau lleol o berygl llifogydd. Ar y raddfa hon, maent yn dueddol o bennu camau gweithredu ar gyfer ymchwiliadau a datblygiad gwerthusiadau achos busnes ac opsiynau yn y dyfodol. Bydd prosesau cynllunio ac asesiadau amgylcheddol ategol pellach yn canolbwyntio ar ddewisiadau eraill ar lefel prosiect.

## 6. Y mesurau a gymerir i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

Mae'r adran hon yn amlinellu'r gwaith monitro rydym yn ei gynnig er mwyn deall effeithiau arwyddocaol y cynllun yn ymarferol. Mae'r broses fonitro'n canolbwyntio ar y

gwasanaethau hynny lle mae effeithiau arwyddocaol posibl (gweler Tabl 3.1). Mae'n rhaid i'r dangosyddion fod yn ymarferol, yn gost-effeithiol, ac yn strategol, a rhaid iddynt nodi effeithiau'r cynllun ei hun, yn hytrach na thueddiadau ehangach. Bydd effeithiau prosiectau unigol sylweddol yn cael eu monitro yn ôl y cynlluniau gweithredu amgylcheddol a/neu'r cynlluniau monitro a lunnir yn ystod yr asesiad effaith amgylcheddol ar lefel y prosiect.

**Tabl 6.1 Ffynonellau gwybodaeth arfaethedig ar gyfer monitro effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd.**

| Gwasanaeth Ecosystem | Effaith y Cynllun | Dangosydd Monitro Arfaethedig | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Darparu | | | |
| Bwyd (e.e. cnydau, ffrwythau, pysgod) | **Mân Effaith Negyddol** | Maint a chynhyrchiant tir amaethyddol. | Ar lefel prosiect, byddai colli tir neu newid defnydd tir yn cael ei gofnodi, a byddai mesurau lliniaru neu fesurau digolledu'n cael eu gweithredu yn ôl yr angen.<br>Mae LlC[1] yn cofnodi ffigurau blynyddol ynglŷn â nifer yr anifeiliaid da byw, a maint a math y tir amaethyddol ledled Cymru. Gellid defnyddio'r data hyn i ddangos tueddiadau strategol. |
| | | Dosbarthiad pysgodfeydd o gyrff dŵr. | Statws ecolegol cyrff dŵr – hysbyswyd trwy'r cynlluniau rheoli basn afon. |
| Rheoleiddio Gwasanaethau | | | |
| Rheoleiddio Dŵr (e.e. llifogydd) | **Mân Effaith Gadarnhaol** | Nifer y bobl ac eiddo mewn perygl gan lifogydd. | Cyfoeth Naturiol Cymru'n monitro a modelu setiau data. |
| Rheoleiddio Pridd ac Erydu | **Mân Effaith Gadarnhaol** | Hydromorffoleg cyrff dŵr. Pa mor naturiol ydyw, er mwyn helpu i gael statws neu botensial ecolegol da. | Statws ecolegol cyrff dŵr – hysbyswyd trwy'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afon. |
| Gwasanaethau Diwylliannol | | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | **Mân Effaith Negyddol** | Statws nodweddion hanesyddol a restrwyd a nodweddion hanesyddol nad ydynt yn | Bydd asesiad effaith amgylcheddol ar lefel y prosiect yn nodi effeithiau posibl ar nodweddion hanesyddol rhestredig a |

[1] Ffeithiau a Ffigurau Cymru 2015, Llywodraeth Cymru.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhestredig. | nodweddion hanesyddol nad ydynt yn rhestredig, a bydd yn dylanwadu ar y dyluniad er mwyn osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol.<br><br>Mae Cadw'n gwneud gwaith monitro a rheoli ar gyfer nodweddion sy'n eiddo i'r wladwriaeth. |
| | | Monitro nodweddion archeolegol anhysbys claddedig neu ardaloedd o botensial archeolegol ar lefel prosiect unigol. | Cyfathrebu agos ag Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru yn ystod y gwaith o werthuso a dylunio prosiectau. Darparu copïau o adroddiadau (e.e. Astudiaethau Gwaith Desg, Adroddiadau Ymchwiliol, Adroddiadau Briff Gwylio ac ati) i Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru yn dilyn cyflenwi prosiect. |
| Hamdden a Thwristiaeth (gan gynnwys mannau hygyrch glas a gwyrdd) | **Mân Effaith Negyddol** | Ardal y collwyd tir hamdden neu dir amwynderau ynddi, tarfu ar hawliau tramwy cyhoeddus, a newidiadau mewn lefelau dŵr a allai effeithio ar weithgareddau sy'n seiliedig yn y dŵr. | Niferoedd defnyddwyr llwybr yr arfordir ac ymwelwyr â Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (cyfrifwyr ymwelwyr mewn rhai lleoliadau).<br>Niferoedd ymwelwyr â Pharciau Cenedlaethol.<br>Bydd cyfleoedd am gynlluniau i wella mynediad cyhoeddus, dehongliad, rhwydweithiau llwybrau troed a beicio, a thir hamdden ac amwynder yn cael eu cofnodi yn y canlyniadau amgylcheddol. |
| Gwerth esthetig (e.e. tirwedd, morwedd, tawelwch) | **Mân Effaith Negyddol** | Mae posibilrwydd o effeithiau lleol yn ddibynnol ar leoliad, math a dyluniad cynlluniau rheoli perygl llifogydd. | Drwy'r broses asesiad effaith amgylcheddol, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cynnar gyda buddiannau perthnasol o ran tirwedd, a phan fo angen, byddwn yn cynnal asesiadau tirwedd ac effaith weledol i lywio dyluniad y cynllun a'r mesurau lliniaru. |
| Gwasanaethau cefnogi | | | |
| Darparu cynefin | **Mân Effaith Negyddol** | Prosiectau cyflenwi cynefinoedd adferol dan y Rhaglen Creu Cynefinoedd Genedlaethol. | Intertidal habitat delivered against monitoring of loss of habitat due to sea level rise. Undertaken through Natural Resources Wales' National Habitat |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Creation Programme. |
| | | Cyflenwi cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. | Cyflenwi cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth trwy brosiectau wedi eu cyllido trwy reoli perygl llifogydd. Dangosydd perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| | | Statws cadwraeth ffafriol safleoedd Ewropeaidd. | Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro statws cadwraeth safleoedd Ewropeaidd. Dangosydd perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| | | Mae posibilrwydd y gall y mesurau arfaethedig gael effeithiau lleol yn amodol ar leoliad, math a dyluniad cynlluniau rheoli perygl llifogydd. | Bydd asesiadau o'r effaith amgylcheddol ar lefel prosiect yn monitro effeithiau ar gynefinoedd a rhywogaethau ac yn gweithredu mesurau lliniaru, adfer a monitro, yn ôl y gofyn. |

Bydd llawer o raglenni monitro sy'n bodoli eisoes yn cael eu hadolygu'n rheolaeth trwy adrodd statudol. Fodd bynnag, bydd y gwaith monitro a argymhellir i ddangos effeithiau rhoi'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ar waith yn cael ei adolygu yn y gwaith cwmpasu sylfaenol ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol ail gylch y cynlluniau, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2021.

# Atodiad 1:  Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad a'r camau gweithredu a gymerwyd.

| Sefydliad sy'n ymateb | Ymateb i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol | Pryder efallai na fydd canolbwyntio gwaith monitro trwy'r Cynllun Rheoli Basn Afon yn ddigonol i ganfod effeithiau na ellir eu rhagweld ar dderbynyddion eraill, e.e. safleoedd a rhywogaethau a warchodir gan Ewrop, tirwedd a morwedd, treftadaeth ddiwylliannol ac ati. | Rydym wedi ychwanegu manylion pellach at y gwaith arfaethedig o fonitro effeithiau arwyddocaol. Nodir y rhain yn Adran 6 o'r ddogfen hon. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol | Dylid defnyddio modd ailadroddol wrth gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a datblygu'r cynllun. Amhriodol derbyn neu derfynu'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd nes bydd yr holl brosesau asesu perthnasol wedi'u cwblhau. | Rydym yn cytuno y dylai'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ddigwydd ochr yn ochr â'r gwaith o baratoi'r cynllun. Nid oedd hyn yn bosibl oherwydd adnoddau cyfyngedig a phwysau ar y rhaglen. Cynhaliwyd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ochr yn ochr â blaenoriaethu mesurau a chyrff dŵr i sicrhau ei fod yn dylanwadu ar y broses hon. Cynhyrchwyd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn ymgynghoriad a chytundeb â Chyfoeth Naturiol Cymru (Tîm Asesu Strategol), ac roedd ar waith cyn i'r cynllun gael ei dderbyn a'i gymeradwyo. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol | Efallai nad yw dibyniaeth CNC ar gasgliadau prosesau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi dyddio a/neu o ansawdd isel yn briodol. Gofynnwyd am eglurder o ran sut mae effeithiau ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill yn cael eu hystyried wrth ddibynnu ar Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd sydd eisoes yn bodoli. | Cafodd Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd a mesurau cytûn eu cymeradwyo ar adeg cymeradwyo'r cynllun a'r prosiect. Nid ydym yn bwriadu ailymweld â'r rhain, ond rydym wedi ystyried yr asesiadau hyn wrth ystyried eu heffeithiau ar y cyd â'r mesurau arfaethedig. Mae hyn yn cael ei nodi yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru – Tîm Asesu Strategol | Esbonio'r hyn a ystyrir yn fesur cynllunio defnydd tir ac ystyried ei effeithiau cynyddol gyda mesurau cynlluniau rheoli perygl llifogydd eraill a gyda chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill. | Mae mesur cynllunio defnydd tir yn un o'r mesurau atal a gynigir gan y cynllun. Nod y rhain yw atal perygl llifogydd:<br>1. Trwy osgoi adeiladu tai a diwydiannau mewn ardaloedd sydd mewn perygl llifogydd – ar hyn o bryd ac yn y dyfodol<br>2. Trwy addasu derbynyddion cyfredol i berygl llifogydd, a thrwy sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn ystyried perygl llifogydd<br>3. Trwy hyrwyddo'r defnydd priodol o dir |
| Cadw | Gwrthododd ymateb | |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Rydym ar ddeall y bydd mesurau amddiffyn (yn arbennig cynlluniau cyfalaf) yn destun asesiad llawn o’r effaith amgylcheddol. Rydym yn hyderus felly y bydd unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol sydd eu hangen yn cael eu hystyried ar y cam hwn. | Bydd mesurau amddiffyn yn amodol ar asesiad o’r effaith amgylcheddol yn unol â deddfwriaeth berthnasol a pholisi Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid oes angen gweithredu. |
| Confor | Efallai y bydd cyfleoedd, drwy gadw dŵr glaw a'i ryddhau'n araf yn yr ardal y mae'n cwympo ynddi, i (ail) goedwigo'r ucheldiroedd. Mae Prosiect Pontbren yn enghraifft ar raddfa fach iawn yn nalgylch Afon Hafren. | Yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft a'r Adroddiad Amgylcheddol, rydym wedi datblygu Mesurau Rheoli Perygl Llifogydd Cenedlaethol. Un o'r rhain yw datblygu cyfleoedd i reoli perygl llifogydd yn naturiol. Cyfeiriwch at y ddogfen Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd derfynol am fanylion pellach. |
| Energy UK | Dylai amddiffyn seilwaith ynni megis gorsafoedd pŵer o dan y pennawd 'asedau materol' fod yn 'effaith' allweddol y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd. Rydym yn pryderu y bydd y diffiniad o asedau materol yn Nhabl 3.1 fel rhai sy'n gysylltiedig â seilwaith trafnidiaeth yn rhy gul. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r elfen o'r drafodaeth 'asedau materol' sy'n ymwneud â lleihau'r perygl llifogydd i seilwaith mewn modd priodol pan fo angen. | Mae Tabl 3.1 yn ymwneud â'r adolygiad o'r cynllun a'r polisïau, ac mae'n cyfeirio at Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, a gafodd ei hadolygu. Nid oes cynllun cenedlaethol ar gyfer seilwaith ynni i'w gynnwys yn yr adolygiad hwn, ond caiff seilwaith yn gyffredinol (ynni, ffyrdd, rheilffyrdd, tai, diwydiannol, ayyb) ei hystyried wrth ddyrannu mesurau cynllun rheoli perygl llifogydd ac yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Nid oes angen gweithredu. |
| RWE Innogy UK Cyf. | Nid yw cyfleoedd yn ymwneud â mesurau newydd neu well i leihau llifogydd, a storio mwy o ddŵr llifogydd, wedi bod yn rhan o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. | Dim ond yr hyn a gynigir gan y cynllun y gall yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ei ystyried. Mae mesurau amddiffyn cynllun rheoli perygl llifogydd yn cynnwys gwahanol fathau o ‘asesiadau’. Nid oes modd inni ddyfalu canlyniad asesiadau o'r fath, ond mewn prosiect byddai hyn yn cynnwys ystyried storio dŵr llifogydd i fyny’r afon neu arafu llif dŵr. Nid oes angen gweithredu. |

| | | |
|---|---|---|
| Coed Cadw | Cesglir y bydd mesurau rheoli perygl llifogydd yn cael 'mân effaith negyddol' ar wasanaethau darparu (amaethyddiaeth/pysgodfeydd), hamdden a thwristiaeth, tirwedd, a darparu cynefinoedd.<br>Nid yw buddiannau ehangach gweithio gyda phrosesau naturiol ar raddfa dalgylch mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd wedi cael eu hystyried. Mae plannu coed sydd wedi ei dargedu fel rhan o ddull o'r fath yn cefnogi amaethyddiaeth a physgodfeydd cynaliadwy ac yn gwella bioamrywiaeth a thirwedd, ac mae coetir hygyrch i'r cyhoedd yn cyfrannu at dwristiaeth leol ac yn hybu iechyd a lles.<br>Mewn perthynas â'r effaith negyddol ganfyddedig ar amaethyddiaeth, mae Coed Cadw'n casglu tystiolaeth sy'n awgrymu bod plannu coed, perthi a chlustogfeydd ar ffermydd yn gallu cael effaith sylweddol ar gynhyrchiant fferm, boed yn gnydau neu anifeiliaid. Byddem yn hapus i rannu'r gwaith hwn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, a phartneriaid eraill. | Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn seiliedig ar effeithiau mesurau'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd arfaethedig sy'n benodol iawn i'r lleoliad ac wedi eu hanelu at leihau'r perygl o ddigwyddiadau eithafol yn yr ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl.<br>Mae rôl coedwigo a thechnegau rheoli tir yn bwysig ar raddfa strategol i ddarparu buddiannau rheoli perygl llifogydd ar raddfa fechan a buddiannau amgylcheddol ehangach. Yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft a'r Adroddiad Amgylcheddol, rydym wedi datblygu Mesurau Rheoli Perygl Llifogydd Cenedlaethol. Un o'r rhain yw datblygu cyfleoedd i reoli perygl llifogydd yn naturiol. Cyfeiriwch at y ddogfen Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd derfynol am fanylion pellach. |
| Cyngor Sir Ceredigion | Mae posibilrwydd y gallai'r sgil effeithiau negyddol o gymryd tir amaethyddol gael eu gwrthbwyso drwy amddiffyn tiroedd amaethyddol eraill, ynghyd â gwella ecosystemau nad ydynt yn rhai amaethyddol drwy weithredu'r cynllun mewn modd priodol.<br>Er y cyfeiriwyd at effeithiau negyddol yn y tymor byr yng ngwasanaethau ecosystem Rheoleiddio Dŵr, Hamdden a Thwristiaeth, Gwerth Esthetig, a Darparu Cynefinoedd, gellid rhoi rhagor o ystyriaeth i'r hyn y gellid ei wella yn y tymor hwy drwy weithredu'r cynllun mewn modd priodol, drwy fynd i'r afael yn llawn â'r materion hynny wrth ddatblygu cynlluniau unigol a rhoi ystyriaeth ychwanegol iddynt. | Bydd mesurau osgoi, lleihau a lliniaru'n cael eu hystyried drwy'r Asesiad Effaith Amgylcheddol ar lefel prosiect. Nid oes angen gweithredu. |
| Cyngor Sir Ceredigion | Mae'r holl awdurdodau lleol yn ardal y cynllun wedi cwblhau strategaethau rheoli perygl llifogydd lleol ar gyfer eu hardaloedd, a dylid ystyried canfyddiadau'r asesiadau amgylcheddol strategol unigol sy'n cyd-fynd â'r strategaethau hynny yn yr adroddiad amgylcheddol hwn. | Nid ydynt wedi eu cynnwys yn yr adolygiad partneriaeth cyhoeddus-preifat am eu bod yn gynllun lefel leol, ac roedd yr adolygiad partneriaeth cyhoeddus-preifat yn ystyried cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol yn unig. Ni chymerwyd camau gweithredu. |
| Cyngor Sir Ceredigion | Dylid rhoi mwy o bwyslais ar welliannau posibl yn yr adrannau Hamdden a Thwristiaeth a Gwerth Esthetig, er mwyn lleihau'r effeithiau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynllun ymhellach. | Byddwn yn ceisio nodi a darparu amryw fuddiannau drwy'r prosiectau sy'n dod i'r amlwg. |